Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Economi ac Amgylchedd

Diogelwch Tai a Diogelu'r Amgylchedd

# Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2024

I Gyflawni Rhan IV Deddf yr Amgylchedd 1995, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021

Rheoli Ansawdd Aer Lleol

Dyddiad: Awst 2024

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| **Swyddog Awdurdod Lleol** | Peter Oates |
| **Adran** | Economi a'r Amgylchedd, Diogelwch Tai a Diogelu'r Amgylchedd |
| **Cyfeiriad** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>Y Ganolfan Ddinesig<br>Pont-y-pŵl<br>NP4 6YB |
| **Ffôn** | 01633 647290 |
| **E-bost** | richard.marshall@torfaen.gov.uk |
| **Rhif Cyfeirnod yr Adroddiad** | TCBC PR 2024 |
| **Dyddiad** | Awst 2024 |

# Crynodeb Gweithredol: Ansawdd Aer yn Ein Hardal

## Ansawdd Aer yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae llygredd aer yn deillio o gyflwyno amrywiaeth o sylweddau i'r atmosffer o amrywiaeth eang o ffynonellau. Gall achosi effeithiau tymor byr a thymor hir ar iechyd, ond hefyd ar yr amgylchedd ehangach. Ar y cyfan mae ansawdd aer Cymru yn well nawr nag y bu ar unrhyw adeg ers cyn y Chwyldro Diwydiannol.

Cyflawnwyd y gwelliannau hyn trwy gyflwyno deddfwriaeth sy'n gorfodi rheolaethau llymach ar allyriadau llygryddion o ffynonellau allweddol, yn enwedig diwydiant, hylosgi domestig a thrafnidiaeth. Serch hynny, er gwaethaf y gwelliannau a wnaed, mae llygredd aer yn dal i gael ei gydnabod fel risg i iechyd, ac mae llawer o bobl yn poeni am lygredd yn yr aer maen nhw'n ei anadlu.

Mae ystadegau'r llywodraeth yn amcangyfrif bod llygredd aer yn y DU yn lleihau disgwyliad oes pob person 7-8 mis ar gyfartaledd, gyda chost gysylltiedig o hyd at £20 biliwn bob blwyddyn. Mae deddfwriaeth a pholisïau sy'n ceisio lleihau ac olrhain effaith llygredd aer ar iechyd a'r amgylchedd ymhellach wedi cael eu cyflwyno yn Ewrop, y DU a Chymru.[1]

Gellir datgan Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) pan fydd gormodiant neu ormodiant tebygol o amcan ansawdd aer. Yn Nhorfaen, yn 2019, torrodd un tiwb tryledydd monitro ansawdd aer yr amcan cenedlaethol o 40 µg / m$^3$ gyda chyfartaledd blynyddol o 47 µg / m$^3$. Penderfynodd yr awdurdod lleol fod angen mwy o wybodaeth a data arnom er mwyn sefydlu maint gofodol unrhyw achos posibl o dorri'r amcan cenedlaethol, cyn symud ymlaen i ddatgan AMAA. Yn 2020. Ehangwyd y rhwydwaith tiwb tryledydd o amgylch y 'man poeth' a nodwyd ac er na ddatgelodd canlyniadau 2020 unrhyw doriadau pellach o’r amcan cenedlaethol, roeddem o'r farn bod y gostyngiadau mewn llygredd traffig oherwydd cyfnodau clo’r pandemig wedi rhoi canlyniadau annodweddiadol. Edrychwyd ar gymariaethau o lefelau llygredd traffig, rhwng blynyddoedd gyda chyfyngiadau clo a hebddynt, yn atodiadau Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer Torfaen 2021. Ers i lefelau traffig normaleiddio, nid ydym wedi gweld yr un gormodiad â 2019 o'r amcan cenedlaethol eto.

Mae Cyngor Torfaen yn monitro osôn, gronynnau ac ocsidiau nitrogen yn barhaus mewn safle cefndir trefol awtomatig, wedi'i leoli yn ysgol gyfun Croesyceiliog. Pob mis

yn 2023, defnyddion ni hefyd 28 o diwbiau tryledidiad goddefol ar byst lamp i fonitro nitrogen deuocsid ar draws y fwrdeistref.

Roedd gan y safle awtomatig lefel gyson uchel o gasgliad data ar gyfer gronynnau, osôn ac ocsidau nitrogen, ond cafodd tua 60% o'r data a wiriwyd i ddechrau ar gyfer nitrogen deuocsid ac osôn ei wrthod wedi hynny o'r set data a wiriwyd gan y tîm SA / RhA oherwydd problem gyda'r samplau. O'r 327 o diwbiau tryledidiad a ddefnyddiwyd dros y flwyddyn, aeth 3 ar goll.

Yn 2023 fe wnaethom barhau gyda'n hastudiaeth gyd-leoli ar gyfer nitrogen deuocsid yn y safle Cefndir Trefol awtomatig. Roedd hyn yn cynnwys gosod tri o'r tiwbiau tryledidiad yn agos at fewnfa sampl yr orsaf awtomatig. Yna cymharir y canlyniadau rhwng y gwahanol fathau o fonitro a chyfrifir addasiadau gogwydd priodol. Defnyddir yr addasiadau gogwydd hyn wrth gyfrifo'r canlyniadau cyfartalog blynyddol ar gyfer yr adroddiad hwn.

Mae data monitro yn dangos bod tuedd cefndir gronynnau ers 2004 yn eithaf sefydlog. Mae nitrogen deuocsid yn y cefndir wedi aros yn eithaf sefydlog ers 2006.

Mae canlyniadau tiwb tryledidiad 2023 yn debyg iawn i set ddata 2021 ac nid ydynt wedi dangos ailadrodd gormodiad 2019 o'r amcan cenedlaethol.

I gloi, nid yw canlyniadau monitro 2023 yn dangos unrhyw ormodiad o unrhyw un o'r amcanion cenedlaethol.

[1] Gwefan Ansawdd Aer Llywodraeth Cymru

## Camau i Wella Ansawdd Aer

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi datgan unrhyw AMAA eto ac mae'n parhau i fonitro'n agos y 'man poeth' a nodwyd yn 2019. Nid yw canlyniadau 2023 ar gyfer yr ardal hon wedi mynd dros yr amcanion cenedlaethol. Yn gyffredinol, mae gan weddill y fwrdeistref lefelau isel o lygredd traffig. Ym mis Tachwedd 2022 gosodwyd synhwyrydd ansawdd aer Praxis/Urban, ar yr un postyn lamp â'r tiwb tryledidiad a gofnododd ormodiad amcan o lefelau Nitrogen Deuocsid yn 2019. Ystyrir fod y synhwyrydd yn ddull mwy cywir o fonitro na thiwbiau tryledidiad ac mae'n monitro gronynnau yn ogystal â Nitrogen Deuocsid.

Mae gan diwbiau tryledìad ansicrwydd o 25%, mae gan y synhwyrydd ansicrwydd o 15%. Ni fydd data'r synhwyrydd yn cael ei ddefnyddio i asesu cydymffurfiaeth yn ffurfiol ag amcanion cenedlaethol ond bydd yn helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch ansawdd yr aer lleol.

Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio cynnal a gwella ansawdd presennol yr aer yn y fwrdeistref, drwy berthnasau gwaith â Llywodraeth Cymru, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau allanol. Rydym hefyd yn craffu ar geisiadau cynllunio a allai fod yn niweidiol i ansawdd aer, yn monitro terfynau allyriadau Trwyddedu Amgylcheddol ynghyd â rheoleiddio a gorfodi'r Ddeddf Niwsans Statudol ac Aer Glân.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gweithio gyda diwydiant lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru drwy'r drefn Trwyddedu Amgylcheddol i helpu i reoli ansawdd aer. Mae'r Cyngor hefyd yn aelod o fforwm Ansawdd Aer Cymru.

Mae'r tîm Iechyd Cyhoeddus yn delio â chwynion am losgi, mwg tywyll a du, ac mae'n rhoi cyngor ar danwydd priodol ar gyfer stofiau llosgi coed domestig.  Mae'r Cyngor hefyd yn rhan o nifer o gynlluniau i wella seilwaith gwyrdd, hyrwyddo teithio llesol a gwella'r llwybrau teithio llesol yn y fwrdeistref.

## Blaenoriaethau a Heriau Lleol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn awyddus i gynyddu ei ddealltwriaeth o ansawdd aer yn y fwrdeistref. Ers 2016 mae'r Cyngor wedi ehangu'r rhwydwaith tiwb tryledìad bob blwyddyn o 13 tiwb yn 2016 i 28 tiwb yn 2023.

Rydym wedi prynu synhwyrydd ansawdd aer sy'n cael ei roi yn yr ardal sy'n dangos y lefelau uchaf o lygredd traffig yn y fwrdeistref.

Rydym yn parhau â'n hastudiaeth gydleoli ar gyfer nitrogen deuocsid ar safle monitro awtomatig Crownbridge Cwmbrân , defnyddir y ffigurau addasu gogwydd a geir o'r astudiaeth hon i gyfrifo'r cyfartaleddau blynyddol yn yr adroddiad cynnydd hwn.

## Sut i Gymryd Rhan

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ansawdd aer yn ardal Torfaen ac yn gyffredinol trwy fynd at adran ansawdd aer ein gwefan yma;

[Rheoli Gwefan Cyngor Torfaen (adran llygredd)]

Trwy fynd at wefan ansawdd aer Llywodraeth Cymru yma;

Safle Cwmbrân ar wefan Ansawdd Aer Llywodraeth Cymru

Gwefan Ansawdd Aer Llywodraeth Cymru

Os oes gennych gwestiynau penodol, gallwch gysylltu â'r Tîm Iechyd Cyhoeddus drwy e-bost;

public.health@torfaen.gov.uk

Fel arall, ffoniwch ni ar 01495 762200.

Mae'r adroddiad diweddaraf a gyhoeddwyd a'r cyfieithiad Cymraeg o'r crynodeb gweithredol i'w gweld yma.

Gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae copïau o’r adroddiadau blaenorol ar gael ar gais.